# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Lynda James | Adran Etholiadol: | PENNARD |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

**Materion etholaeth cyffredinol -** Ymdriniais â nifer o broblemau megis tyllau yn yr heol, llyncdyllau, casgliadau sbwriel a llifogydd etc. Darperais gyngor a chefnogaeth ar nifer o faterion unigol a chyfeirio eitemau i swyddogion y cyngor ar amrywiaeth eang o bynciau. Rwyf bob amser ar gael gartref, dros y ffôn neu drwy e-bost, a byddaf yn ymweld ag etholwyr yn eu cartrefi os yw'n fwy cyfleus iddynt.

**Cymorthfeydd misol –** Cynhaliais gymorthfeydd bob mis yn Eglwys Plwyf Pennard a Marchnad Cynnyrch Pennard. [Mae'r dyddiadau a'r lleoliadau wedi newid ar gyfer 2014/15. Caiff y cymorthfeydd eu cynnal yn Llyfrgell Pennard ac ym Marchnad Cynnyrch Pennard ar ail ddydd Sadwrn a dydd Sul y mis rhwng 10.30 am a 12.00 pm]

**Cyfarfodydd PACT –** Euthum yn rheolaidd i'r cyfarfodydd PACT a drefnwyd gan Gymdeithas Gwarchod Cymdogaeth Pennard â'r swyddog heddlu lleol a'r PCSO. Roedd y cyfarfodydd hyn yn cynnwys materion penodol megis y gwasanaethau bws lleol, gyrru'n rhy gyflym, gwartheg crwydr y gwahoddwyd y bobl berthnasol iddynt.

**Cylchlythyrau –** Lluniais a dosbarthais gylchlythyrau rheolaidd i'r holl etholwyr ar bynciau sy'n berthnasol i Ward Pennard yr oeddwn yn credu y byddent o ddiddordeb.

**Cynllunio –** Adolygais yr holl geisiadau cynllunio ar gyfer y ward ac ymwelais â'r rhan fwyaf o'r safleoedd. Trefnais i'r pwyllgor ystyried ceisiadau dadleuol, ymgynghorais â swyddogion cynllunio a chysylltais â swyddogion gorfodi pan ystyriwyd bod angen.

**Cyngor Cymuned Pennard -** Euthum i'r rhan fwyaf o gyfarfodydd y cyngor cymuned a chyflwynais faterion a gododd yn y fforwm. Fel aelod o'r cyngor cymuned, cymerais ran arweiniol mewn llawer o'r prosiectau cymunedol megis ailadeiladu pafiliwn y maes chwarae.

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 9 | / | 12 | 75 | % |
| Pwyllgor Archwilio | 10 | / | 11 | 91 | % |
| Y cyngor | 13 | / | 15 | 87 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 8 | / | 8 | 100 | % |
| Pwyllgor Perfformiad a Chyflwyno | 3 | / | 3 | 100 | % |
| CYFFREDINOL | 43 | / | 49 | 88 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd

**Roeddwn yn aelod o'r paneli craffu canlynol:**

Panel Craffu Gwella Gwasanaethau a Pherfformiad Cyllid
Panel Ymchwilio Tai Fforddiadwy
Panel Ymchwilio Craffu Cludiant Cyhoeddus
Panel Ymchwilio Strydlun
Gweithgor Cynllunio
Panel Ymchwilio Gofal Cymdeithasol yn y Cartref

## Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

**Llyfrgell Pennard -** Trefnais gyfarfodydd cyhoeddus i wrthwynebu cau Llyfrgell Pennard ac i sicrhau parhad y gwasanaeth ardderchog a arweinir gan lyfrgellydd. O'r cyfarfodydd hyn, ffurfiwyd grŵp Cyfeillion Llyfrgell Pennard, sydd bellach yn gweithio gyda Chyngor Abertawe i wella adeilad presennol y llyfrgell a threfnu bod y gwasanaeth llyfrgell ym Mhennard yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.
**Parcio Ceir -** Er mwyn annog pobl i beidio â pharcio'n ddifeddwl yn Southgate, gweithiais gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i annog mwy o ddefnydd o'i maes parcio trwy roi parcio rhatach ar waith ar gyfer arosiadau byrrach. Menter arbennig hefyd i breswylwyr lleol sy'n aelodau o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol barcio am ddim.

## Adran 5: Dysgu a Datblygu

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:
21/02/2014 - Sgiliau Gwrando'n Astud
19/02/2014 - Sgiliau Cadeirio
22/01/2014 - Rheolau Trafod
17/12/2013 - Cyflwyniad i Hyfforddiant Cyfryngau
27/11/2013 - Deall Cyllideb y Cyngor
25/10/2013 - Magu Plant Corfforaethol
14/10/2013 - Cyn-benderfynu

## Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill

Fel cynghorydd annibynnol, pleidleisiais ar yr holl faterion yn unol â'm cydwybod mewn cydbwysedd ag anghenion etholwyr Pennard yn benodol ac Abertawe'n gyffredinol.
Cymerais rôl weithgar mewn llawer o bwyllgorau a sefydliadau lleol megis:-
Cynullydd ysgol yn Ysgol Gynradd Pennard ac Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt.
Cyngor Cymuned Pennard; Cymdeithas Gwarchod Cymdogaeth Pennard; Ymddiriedolwr Elusen Gymunedol Pennard; Aelod o Gyfeillion Llyfrgell Pennard; Pwyllgor Neuadd Blwyf Pennard.

## Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr

Cyflog sylfaenol - £13,175 y flwyddyn.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 15.05.14 |